CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 5ed o Chwefror 2019 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Llinos Davies

Cynghorwyr: Enid Cole, Lon Davies, Ceirwyn John, Robin Phillips, Ieuan Davies, Sarah-Jane Absalom

Cynghorydd Sir: Cyng. Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:-

Cofnodion - 02.01.2019

Cynigodd Robin Phillips ac eiliodd Lon Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

104. Post trydan yn Ffynnongroes. Helen wedi cysylltu gyda cwmni Trydan ac maent yn ymwybodol or sefyllfa ac fe fydd y post yn cael ei newid yn y dyfodol agos.

Gohebiaeth

105. Cyfanswm yn y Banc 25.01.19 - £4,463.48

106. Llythyr ynglyn a Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Eglwyswrw. Cyn trafod fe wnaeth Llinos Davies a Cris Tomos datgan diddordeb yn y mater. Cais ar gyfer Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol. Fe fydd Llinos Davies yn cynorthwyo y Cyngor Cymuned yn y swydd yma.

107. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais cynllunio Temple Gate, Pontyglasier ar gyfer newid defnydd adeiladau amaethyddol I ddarparu 2 fwthyn gwyliau fel rhan o gynllun arallgyfeirio. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.

108. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Llwyncelyn, Eglwyswrw. Cais ar gyfer rheoleiddio ac uwchraddio'r ddarpariaeth storio bresennol a ddefnyddir mewn cysylltiad a busnes ebay fel ffurf o gynllun arallgyfeirio. Roedd na tipyn o pryder gyda'r cynghorwyr ynglyn a'r cais yma ac hefyd mae na gwybodaeth wedi dod o'r cymdogion ynglyn a'r cais yma. Helen I cysylltu gyda Parc Awdurdod Cenedlaethol Arfordir Penfro.

109. Cyngor Sir Benfro – Llain, Eglwyswrw – Mae'r cais wedi cael ei cymeradwyo yn amodol.

Unrhyw Fater Arall

110. Cyfeilllion Ysbyry Aberteifi – Ebost ynglyn a cyfarfod Nos Fercher 23ain o Ionawr ac yn gofyn am cynrhychiolydd wrth y Cyngor Cymuned. Mae'r Cyng Enid Cole yn mynychu y cyfarfodydd yma.

111. Golau tu allan I Gapel Brynberian – Helen wedi cysylltu gyda Cyngor Sir Benfro ynglyn a'r golau yma hefyd mae'r Cyng Cris Tomos wedi cysylltu gyda Cyngor Sir Benfro. Wedi cael ateb ac yn anffodus fe fydd y golau yma ddim yn cael ei gywiro.

112. Cododd Sarah-Jane Absalom ynglyn a Defibiliwr sydd fod cael ei osod yn Ffynnongroes. Helen I gysylltu gyda Alwyn a Awen ynglyn a'r sefyllfa yma ac fe fydd Lon Davies yn cysylltu gyda Sandra Llewellyn.

113. Hysbysebodd Sarah-Jane Absalom ynglyn a cyfarfod gyda Ganolfan Cymunedol Brynberian Nos Fawrth 12fed o Chwefror am 7y.h I drafod ail rhan Ysgol Llwynihirion.

114. Hysbysebodd y Cyng. Cris Tomos ynglyn a cyfarfod ar yr 2il o Fawrth yng Nghanolfan Hermon – Launching Community Lottery fund. Croeso I pawb.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 5ed o Fawrth am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.30 y.h.